Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Y Castell

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg







Mae Ysgol y Castell yn ysgol hapus a gofalgar lle mae disgyblion yn gweithio a chwarae gyda'i gilydd yn hyderus. Mae staff yn canolbwyntio'n dda ar les disgyblion, ac mae hyn yn galluogi disgyblion i ffynnu yn amgylchedd cynhwysol yr ysgol. Dywed disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn saff, ac yn hapus yn yr ysgol. Maent yn gwybod bod oedolion yn yr ysgol yn gofalu amdanynt ac y gallant droi atynt pan fyddant yn wynebu heriau neu anawsterau. Mae'r cymorth ar gyfer lles emosiynol disgyblion yn hynod effeithiol ac yn gryfder yn yr ysgol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at yr ysgol, maent yn ymddwyn yn dda ac yn mwynhau eu dysgu. Maent yn ffurfio perthnasoedd cryf gydag oedolion ac â'i gilydd ac yn dangos parch a chwrteisi at bob aelod o gymuned yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn dangos diddordeb yn eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol, ac yn cyflawni'n dda.

Mae'r ysgol yn darparu ystod gyfoethog, eang a chytbwys o brofiadau dysgu a darpariaeth ychwanegol sy'n diwallu anghenion a diddordebau addysgol ac ehangach y disgyblion yn dda. Caiff staff eu hannog i roi cynnig ar ymagweddau newydd at addysgu, a datblygu amrywiaeth y profiadau dysgu y maent yn eu cynnig i ddisgyblion. Maent yn gwrando'n ofalus ar yr hyn mae disgyblion eisiau dysgu amdano, ac yn plethu eu syniadau mewn dilyniannau gwersi wedi'u cynllunio'n dda sy'n adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn cael yr her na'r cyfle i ddefnyddio'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm cystal ag y gallent.

Mae gan arweinwyr yr ysgol ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain a phawb yng nghymuned yr ysgol i wneud eu gorau dros ddisgyblion. Maent yn gosod naws gadarnhaol ac uchelgeisiol ar gyfer gwaith yr ysgol. Maent yn meithrin cydweithio ymhlith staff, yn meithrin arbenigedd proffesiynol ac yn cryfhau partneriaethau â rhieni yn llwyddiannus. Mae hyn yn helpu'r ysgol i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol fel diwygio'r cwricwlwm a lles disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn gosod nodau clir ar gyfer gwella; fodd bynnag, nid yw gweithgarwch monitro bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar y gwahaniaeth a wna gwaith gwella i ddysgu disgyblion. Mae gan y corff llywodraethol ran bwysig ym mywyd yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn cynorthwyo ac yn herio arweinwyr yn effeithiol. Mae ganddynt ystod eang o wybodaeth ac arbenigedd sy'n eu helpu i gyflawni eu rolau'n dda.

# Argymhellion

A1 Canolbwyntio gwaith hunanwerthuso a gwella yn graffach ar yr hyn y mae disgyblion yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

A2 Herio pob un o'r disgyblion i wella eu medrau digidol ac ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm

A3 Gwella hyder a gallu disgyblion i siarad Cymraeg, mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Y Castell |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 229 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 182 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 23 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 22.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 11.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 28/04/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 10/10/2022 |
| Wedi i'r pennaeth blaenorol ymddeol ar ddiwedd tymor yr haf 2022, penodwyd pennaeth newydd, ond ni fydd yn dechrau yn y swydd tan fis Ionawr 2023. Mae'r dirprwy bennaeth, a benodwyd ym mis Ionawr 2021, yn ymgymryd â rôl pennaeth dros dro tan yr adeg honno. | |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/12/2022